**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Beddgelert**
**Beddgelert**
**Gwynedd**
**LL55 4UY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2015**

## Cyd-destun

Ysgol fechan wledig yw Ysgol Gynradd Beddgelert sy'n darparu addysg ddwyieithog i ddisgyblion y pentref a'r ardal wledig o'i chwmpas. Daw o dan ofal awdurdod lleol Gwynedd.

Mae 26 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gydag un plentyn oedran meithrin yn mynychu rhan amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn dau ddosbarth oed cymysg. Mae tua 15.3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Daw tua 7% o gartrefi ble siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae ychydig iawn o'r disgyblion yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig ac ychydig iawn o gefndir lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol.

Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae ysgol wedi adnabod bod ganddi tua 12% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig ac nid oes disgybl mewn gofal.

Penodwyd y pennaeth ym Mehefin 2004. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Ebrill 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Beddgelert yn 2014-2015 yw £7,096. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Gynradd Beddgelert yn safle 11eg o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig i safon fedrus gan ddefnyddio ystod o ffurfiau
- Bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac yn cynnal a chefnogi ei gilydd yn fedrus.
- Bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau datrys problemau da sydd yn dod i'r amlwg mewn gweithgareddau amrywiol ar draws y cwricwlwm
- Bod cyflymder mwyafrif y gwersi'n dda, ac mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn eu dysgu
- Bod y broses hunanasesu wedi ei mewnosod ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn asesu gwaith cyfoedion yn adeiladol
- Bod pwyslais mawr ar barch o fewn yr ysgol ac mae llais y disgybl yn cael gwrandawiad teg

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth amcanion clir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddarparu cyfle cyfartal i bob disgybl
- Bod staff yn derbyn hyfforddiant addas sy'n ymateb i flaenoriaethau'r ysgol yn ogystal â thargedu anghenion staff unigol
- Bod yr athrawon yn defnyddio data yn effeithiol er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth
- Bod y llywodraethwyr yn barod iawn i herio'r ysgol ac yn gwneud hynny mewn modd adeiladol
- Bod y broses hunanarfarnu wedi ei seilio ar ystod eang o dystiolaeth addas a phwrpasol

## Argymhellion

A1 Cynllunio'n effeithiol ar gyfer defnyddio'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Sicrhau bod y cwricwlwm yn herio disgyblion mwy abl mewn mathemateg

A3 Gwella dealltwriaeth athrawon o gyrhaeddiad disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol ar lefel sydd yn is na'r lefel ddisgwyliedig, yn enwedig yn y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar ôl cyfnod byr, mae bron pob disgybl yn datblygu i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn hyderus mewn gweithgareddau dosbarth ac yn achlysurol yn ystod y dydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Maent yn defnyddio geirfa eang yn naturiol wrth siarad ac yn darllen yn ystyrlon gan ddangos mynegiant aeddfed. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio strwythur gramadegol cywir wrth ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus ac yn defnyddio llawysgrifen ddealladwy. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o wahanol ffurfiau ysgrifennu ac yn ysgrifennu llythyr anffurfiol i blentyn yn Brazil, ysgrifennu adroddiad ar sut i dyfu hadau berw'r dŵr, a dwyn i gof taith i Lyn Dinas.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cynnal sgyrsiau aeddfed yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa raenus wrth fynegi barn ac yn ymestyn trafodaeth yn fedrus gydag oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn synhwyrol yn unol â'u hoed a'u gallu, maent yn mynegi hoffter am lyfrau ac yn newid goslef eu llais i greu effaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig i safon fedrus, gan ddefnyddio ystod o ffurfiau, atalnodi'n gywir ac yn cynnwys ansoddeiriau pwerus yn llwyddiannus i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ysgrifennu darn dwyn i gof am ddefaid enwog Hafod y Llan a hunanbortread.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n glir ac yn aeddfed. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen i safon sydd yn cyfateb i'w hoed, ac yn dangos brwdfrydedd at lyfrau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon dda. Mae bron pob un yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn gyson ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith.

Mae safon fathemategol y disgyblion ar draws yr ysgol yn briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn casglu a threfnu gwybodaeth mewn cyd-destunau pwrpasol a dehongli gwybodaeth sydd wedi'i chyflwyno mewn graffiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio gwahanol strategaethau wrth ddatrys problemau rhifiadol. Maent yn casglu data ac yn llunio graffiau priodol at wahanol bwrpasau, er enghraifft i ddangos effaith gweithgareddau corfforol ar guriad y galon. Maent yn dadansoddi a rhesymu data yn effeithiol. Fodd bynnag, digonol yw perfformiad disgyblion mwy abl eu gallu mewn mathemateg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac yn cynhyrchu gwaith i'r un safon a welir ganddynt yn eu gwaith mathemateg a iaith. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Gall y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

Dros gyfnod o dair blynedd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl dros yr un cyfnod wedi bod yn y 25% uchaf mewn llythrennedd ond wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 50% uwch mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae perfformiad dros yr un cyfnod wedi bod gan amlaf yn y 25% uchaf.

Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig nac ar y lefel uwch na'r disgwyl dros gyfnod o amser.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Maent yn hapus, yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i siarad os ydynt yn poeni. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cadw'n heini drwy wneud gweithgareddau corfforol megis clwb Campau'r Ddraig, gampfa'r Cyfnod Sylfaen, wal ddringo a'r Llwybr Chwarae.

Mae canran presenoldeb yn dda ac mae'r perfformiad yr ysgol wedi bod yn y 25% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn. Maent yn barchus iawn tuag at ymwelwyr, yn cydweithio'n effeithiol ac yn cynnal a chefnogi ei gilydd yn fedrus.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwdfrydig ac wedi gwneud penderfyniadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dysgu. Er enghraifft, maent wedi penderfynu bod angen peintio toiledau'r ysgol, cael gwared â sbwriel a rhoi cyflwyniad ar ailgylchu i'r llywodraethwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb dros osod targedau addysgol a phersonol i'w hunain a chyfrannu'n effeithiol at gynllunio'r themâu. Mae'r disgyblion yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer achosion da fel llifogydd yn Ynysoedd y Philippinos a masnach deg, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill.

O oedran cynnar iawn, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith eu hunain. Mae gan y rhan fwyaf fedrau datrys problemau da sydd yn dod i'r amlwg mewn gweithgareddau amrywiol ar draws y meysydd dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o brofiadau diddorol sydd yn symbylu'r disgyblion yn dda. Mae'r profiadau dysgu yn ymateb yn briodol i'r gofynion statudol. Mae athrawon yn cynllunio'n fedrus ar gyfer diwallu anghenion disgyblion o allu ac oedran cymysg yn y ddau gyfnod allweddol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ar gyfer herio disgyblion mwy abl eu gallu mewn mathemateg yn ddigonol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda. Mae'r athrawon yn rhoi sylw da i gynllunio ar gyfer datblygu medrau meddwl disgyblion ym mhob maes dysgu. Maent yn darparu cyfleoedd da i gyfoethogi profiadau dysgu yn yr ardal dan do o fewn dosbarth y Cyfnod Sylfaen, ond nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau yn yr ardal allanol.

Mae gweledigaeth yr ysgol o ran darpariaeth y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn glir wrth ymateb i ofynion Siarter Iaith Gwynedd. Mae cyfleoedd da i hybu'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth trwy chwarae gemau a chwaraeon buarth sydd yn atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith. Mae'r disgyblion wedi derbyn profiadau cyfoethog sydd yn dwysáu eu hymdeimlad o Gymreictod. Er enghraifft, maent wedi astudio gwaith Iwan Bala, cymharu ardal Beddgelert a Chaerdydd a chymryd rhan mewn creu ffilm BBC 'Gelert'. Mae'r thema 'Fy Ardal Leol' yn rhoi cyfleoedd da i'r disgyblion werthfawrogi a dysgu am yr amgylchedd traddodiadol Cymreig sydd o'u cwmpas.

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau addas sy'n hybu dealltwriaeth y disgyblion o faterion cynaladwyedd drwy ailgylchu a chompostio. Maent yn darparu cyfleoedd cyson i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang trwy weithgareddau elusennol fel codi arian at Nepal ac Ynysoedd y Philippinos, a pharatoi cyflwyniad am fasnach deg.

**Addysgu: Da**

Mae perthynas waith dda rhwng athrawon a disgyblion ac mae athrawon yn arwain sesiynau mewn modd effeithiol a diddorol sy'n cymell disgyblion i ddysgu. Mae staff ategol yn cefnogi athrawon a disgyblion yn effeithiol mewn sesiynau dysgu.

Mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer bron pob un o'r disgyblion ac yn modelu iaith raenus wrth gyflwyno ac arwain sesiynau dysgu. Maent yn rhoi blaenoriaeth deilwng i ddatblygu medrau allweddol llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae cyflymder mwyafrif y gwersi'n dda, ac mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Er bod ystod oed eang o fewn y ddau ddosbarth, mae'r athrawon yn sicrhau amrywiaeth addas o weithgareddau sy'n herio mwyafrif y disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio disgyblion mwy abl i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig mewn mathemateg.

Mae dulliau marcio'r ysgol wedi eu gwreiddio'n gadarn. Maent yn sicrhau bod athrawon yn ysgrifennu sylwadau cadarnhaol ac yn rhoi cyfle cyson i'r disgyblion

wella eu gwaith eu hunain trwy ddefnyddio strategaethau amrywiol o asesu ar gyfer dysgu. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn asesu eu perfformiad eu hunain yn effeithiol ac yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd i wella eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r broses hunanasesu wedi ei mewnosod ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn asesu gwaith cyfoedion yn adeiladol. Mae'r ysgol wedi sefydlu system dracio sydd yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol ac yn cael effaith bositif ar gyrhaeddiad y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae trefniadau priodol yn bodoli rhwng ysgolion y clwstwr ar gyfer cymedroli gwaith disgyblion diwedd cyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid oes trefniadau tebyg ar gyfer cymedroli gwaith disgyblion diwedd Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, nid yw dealltwriaeth athrawon o ganllawiau asesu cyrhaeddiad disgybl ar ddiwedd cyfnod wedi ei datblygu'n ddigonol.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn gynhwysfawr ac yn adrodd yn briodol ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chymwynasgar iawn. Mae ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau pwrpasol yn eu lle i hybu iechyd a lles. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae arwyddion o gwmpas yr ysgol i hyrwyddo gwerthoedd fel parch a chwrteisi ac mae cerdd a ysgrifennwyd gan y disgyblion yn cadarnhau eu hymrwymiad i'r gwerthoedd hyn wedi ei harddangos gyda balchder.

Llwydda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn effeithiol trwy weithgareddau fel 'Fy llofnod', 'Llaw Personoliaeth' a 'Sut berson ydw i' yn ystod gwersi addysg grefyddol. Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn cael eu haddysgu sut i gadw yn iach ac yn cael digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ymarfer corff. Mae gan yr ysgol bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer byw yn iach a lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol ar adegau penodol yn cynnwys ymweliadau gan y nyrs ysgol a'r heddlu i gefnogi'r dysgu wrth drafod am beryglon y rhyngrwyd. Mae'r arweiniad hwn yn atgyfnerthu'r gwaith sydd yn digwydd yn yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae systemau'r ysgol ar gyfer cefnogi'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Mae targedau addas yn cael eu gosod ar gynlluniau addysg unigol y disgyblion hyn ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu yn rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r rheini. Mae sesiynau dysgu yn cael eu gwahaniaethu'n briodol ac yn rhoi ystyriaeth deilwng i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae'r disgyblion sydd yn derbyn sylw ychwanegol trwy raglenni ymyrraeth gyson yn gwneud cynnydd da.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn gosod awyrgylch croesawgar a theuluol lle caiff pob disgybl ei drin yn gyfartal. Anogir ymddygiad da y disgyblion drwy feithrin agweddau hynod ofalgar a chadarnhaol. Mae pwyslais mawr ar barch o fewn yr ysgol ac mae gwerthoedd yn derbyn sylw haeddiannol a llais y disgybl yn cael gwrandawiad teg. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol a'r ysgol werdd gyda'i gilydd wedi sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn taflenni o syniadau ar gyfer arbed ynni. Mae'r ysgol yn trefnu bod y disgyblion hŷn yn rhoi gofal bugeiliol i'r rhai iau a chymorth i'r staff gadw disgyblaeth a threfn. Mae'r cydweithio hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn cynnig ystod gyfyng o offer sydd o ansawdd da. Mae gan yr ysgol adnoddau pwrpasol fel byrddau gwyn rhyngweithiol, llyfrgell a neuadd amlbwrpas lle cynhelir gwasanaethau, gwersi addysg gorfforol, clwb brecwast a chinio. Mae adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol. Mae ardaloedd allanol yr ysgol yn annog y disgyblion i gadw'n iach a heini. Tynnwyd mater sy'n cael effaith anffafriol ar les disgyblion i sylw llywodraethwyr ar adeg yr arolygiad.

Mae nifer o arddangosfeydd deniadol o gwmpas yr ysgol sy'n clodfori gwaith a chyflawniadau'r disgyblion yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth amcanion clir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddarparu cyfle cyfartal i bob disgybl er mwyn iddynt gyrraedd safonau uchel. Llwydda i gyfleu'r amcanion hyn yn effeithiol i'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr. Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn glir ac maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol. O ganlyniad, mae ymrwymiad cryf ar draws yr ysgol i sicrhau addysg o safon uchaf.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad effeithlon sydd yn adnabod ac yn cefnogi agweddau priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a staff ategol yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi trefnu bod staff yn derbyn hyfforddiant addas sy'n ymateb i flaenoriaethau'r ysgol yn ogystal â thargedu anghenion staff unigol. Er enghraifft, maent wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer diwallu rhaglenni ymyrraeth a mynychu cynhadledd rhifedd a llythrennedd.

Mae arweinwyr yn defnyddio data o nifer o ffynonellau amrywiol yn effeithiol ar gyfer monitro perfformiad disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn gweithredu'n effeithiol fel ffrind beirniadol. Maent yn derbyn adroddiadau perthnasol gan y pennaeth ynglŷn â chyraeddiadau disgyblion yn rheolaidd. Mae aelodau o'r corff yn ymweld â'r ysgol yn gyson ac yn mynd i'r afael â'r gwaith o arsylwi ar sesiynau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn adeiladol.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu gwreiddio'n gadarn ac mae'r ysgol yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol i gynllunio medrau ar draws y cwricwlwm yn gyson.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r broses hunanarfarnu wedi ei seilio ar ystod eang o dystiolaeth addas a phwrpasol. Fel rhan o'r broses, mae arweinwyr yn casglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau; er enghraifft, maent yn dadansoddi data, craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a chasglu barn disgyblion a rhieni. Yn gyffredinol, mae mwyafrif yr adroddiadau sy'n deillio o arsylwadau monitro gwersi a chraffu ar lyfrau yn nodi'r camau priodol sydd angen eu datblygu. Mae dadansoddiad manwl o flaenoriaethau blaenorol hefyd yn cynorthwyo arweinwyr i osod targedau newydd.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen gynhwysfawr, sy'n adlewyrchu'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol ac yn adnabod meysydd i'w datblygu. Mae'r meysydd hyn yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol i gynllun datblygu'r ysgol. Mae'r pennaeth yn defnyddio'r deilliannau hunanarfarnu yn effeithiol i osod blaenoriaethau priodol ar gyfer symud yr ysgol ymlaen. Mae gan y blaenoriaethau hyn ffocws clir ar wella medrau mathemateg disgyblion ac ar wella perfformiad. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys amserlen weithredu briodol, cyllid addas a dangosyddion llwyddiant sydd yn fesuradwy ar y cyfan.

Mae'r pennaeth yn monitro a gwerthuso'r cynnydd at y blaenoriaethau yn briodol, ac yn adrodd arnynt yn rheolaidd i'r corff llywodraethol. Mae'r broses hon wedi cael effaith bositif ar wella medrau meddwl a medrau datrys problemau'r disgyblion

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol at y ddarpariaeth a'r safonau da y mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Mae partneriaeth fuddiol rhieni yn sicrhau bod bron pob disgybl yn derbyn cefnogaeth gytbwys. Mae rhieni yn gwirfoddoli i gynorthwyo'r disgyblion gyda garddio ac mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ofal a pharch at yr amgylchedd. Mae'r ysgol yn cynnwys y rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau drwy drefnu nosweithiau rhannu gwybodaeth yn rheolaidd, yn cynnwys cyfleoedd i rannu disgwyliadau mathemateg, strategaethau darllen a chyflwyno gemau mathemateg. O ganlyniad, mae gan y rhieni well dealltwriaeth o'r strategaethau i'w defnyddio i gefnogi eu plant.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol â'r gymuned yn dda. Mae'r ysgol yn elwa o bartneriaeth agos gyda'r eglwys leol wrth gynnal cyngherddau, clwb nos Fawrth, a chynnal gwasanaeth boreol. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i gefnogi'r darllen a hefyd i siarad am wahanol brofiadau yn ymwneud â'r thema, er enghraifft sôn am yr Ail Ryfel Byd. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y disgyblion o bwysigrwydd cymuned a balchder yn eu hardal leol.

Mae ystod ac ansawdd y trefniadau trosglwyddo ar gyfer y disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn dda. Yn ogystal â threulio dau ddiwrnod yn yr ysgol uwchradd mae athrawon mathemateg a Ffrangeg yn ymweld â'r ysgol i gynnal gwersi. O ganlyniad,

mae disgyblion blwyddyn 6 yn cael eu paratoi'n briodol at y cam nesaf yn eu haddysg.  Mae perthynas adeiladol yn bodoli rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill y dalgylch.  Maent yn cwrdd yn flynyddol er mwyn cymedroli gwaith disgyblion ac mae hyn wedi gwella dealltwriaeth asesu gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.  Mae'r ysgolion hefyd wedi cydweithio ar ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion ac mae hyn wedi gwella safon cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgolion a'r ysgol feithrin leol yn dda ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus er mwyn sicrhau bod y broses trosglwyddo yn esmwyth.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol.  Mae hyn yn cael effaith bositif ar les disgyblion.  Enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion a staff gan swyddog lles yr awdurdod er mwyn cynnig cefnogaeth emosiynol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus.  Mae'r is-bwyllgor cyllid yn cwrdd yn rheolaidd ac yn herio gwariant yn effeithiol er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid.   Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r cyllid yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer codi safonau a threfnu hyfforddiant pwrpasol.  Mae athrawon yn ddefnyddio'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn addas, ac fe gaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli'n dda.  Manteisir yn llawn ar arbenigedd pob aelod o staff i gynnig profiadau dysgu diddorol.  Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wneir o arbenigedd athrawes allanol i addysgu celf ac addysg grefyddol.  Mae'r staff ategol yn cynnig cefnogaeth gadarn i grwpiau ymyrraeth ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad disgyblion.

Rhoddir pwyslais priodol ar ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus i'r holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn ymhellach.  Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol rhwng athrawon cyfnod allweddol 2 y dalgylch ar ysgrifennu ymestynnol wedi arwain at godi safonau'r disgyblion.  Mae'r ysgol yn defnyddio arian y grant amddifadedd yn briodol i gefnogi disgyblion penodol.

Mae cyflenwad da o adnoddau pwrpasol yn cefnogi'r addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol.  Fodd bynnag, nid oes digon o amrywiaeth adnoddau yn yr ardal allanol i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen.  Fe wneir defnydd effeithiol o'r adeilad ac mae newidiadau diweddar i'r strwythur mewnol wedi ategu at hynny.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612010 - YSGOL BEDDGELERT**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 27 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 13.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 5 | 6 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.0 | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 50.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 83.3 | * |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.0 | 33.3 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | * |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 5 | 6 | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 40.0 | 66.7 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | * |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 19 | 18<br>95% | 1<br>5% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 19 | 18<br>95% | 1<br>5% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 19 | 19<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 19 | 18<br>95% | 1<br>5% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 12 | 7 | 3 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 58% | 25% | 17% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 12 | 10 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 12 | 10 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 12 | 7 | 4 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 58% | 33% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 12 | 8 | 3 | 0 | 1 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 25% | 0% | 8% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 12 | 8 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 25% | 8% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 11 | 5 | 3 | 2 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 45% | 27% | 18% | 9% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 8 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 9 | 2 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 75% | 17% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 12 | 8 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 9 | 6 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 12 | 6 | 3 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 25% | 25% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 12 | 9<br>75% | 2<br>17% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 12 | 8<br>67% | 2<br>17% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 10 | 6<br>60% | 2<br>20% | 2<br>20% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 6 | 3<br>50% | 1<br>17% | 2<br>33% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 12 | 5<br>42% | 3<br>25% | 3<br>25% | 1<br>8% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 12 | 7<br>58% | 2<br>17% | 2<br>17% | 1<br>8% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Eirianwen Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catrin Gwilym | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.